

TELERAU AC AMODAU

1. Mae'r gystadleuaeth yma yn cael ei threfnu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
2. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl sy'n dysgu Cymraeg – gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i darparwyr cyrsiau, neu gyda darparwyr eraill.
3. Rhaid i ymgeiswyr ysgrifennu stori ar thema 'Y Llyfr'. Rhaid i'r stori fod yn un wreiddiol, sy heb ei chyhoeddi. Mae categori ar gyfer pob lefel Dysgu Cymraeg: Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch.
4. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau trwy ffurflen ar-lein yn unig. Bydd ymgeiswyr yn derbyn neges awtomatig yn cydnabod derbyn y cais.
5. Ddylai ceisiadau ddim cynnwys deunydd difenwol, anwedus, sarhaus, neu unrhyw ddeunydd anaddas arall. Rhaid i'r ceisiadau fod yn addas i'w cyhoeddi ar-lein gan y Ganolfan.
6. Mae ymgeiswyr yn cadw'r hawlfraint yn eu ceisiadau ond yn rhoi trwydded anghyfyngol, ddi-freindal am byth i'r Ganolfan gyhoeddi ar-lein a phostio'r cais ar unrhyw blatfformau.
7. Drwy gyflwyno stori, mae'r ymgeisydd yn cytuno y gall y Ganolfan, yn ôl ei disgresiwn ei hun, addasu, cwtogi neu gyfieithu'r cais.
8. Caiff y straeon eu beirniadu gan ddau awdur Cymraeg a bydd enillydd ym mhob categori; bydd cyhoeddusrwydd am yr enillwyr.
9. Bydd y straeon buddugol yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn ystod Amdani – Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg, 28 Chwefror – 4 Mawrth 2022.
10. Mae penderfyniad y Ganolfan yn derfynol.
11. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw gais sy'n torri unrhyw un o'r Telerau a'r Amodau hyn, neu i gadw gwobr yn ôl os yw o'r farn nad yw'r ceisiadau yn cyrraedd y safon ofynnol.
12. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Telerau a'r Amodau hyn neu i ganslo'r gystadleuaeth unrhyw bryd os yw o'r farn ei fod yn angenrheidiol gwneud hynny, neu os yw amgylchiadau'n codi y tu hwnt i'w rheolaeth.
13. Y dyddiad cau yw 31 Ionawr 2022.